# the index
# y mynegai

Haf
**2024**
Rhifyn 46






Y CYLCHLYTHYR
i blant a phobl ifanc sydd ag anableddau neu anghenion ychwanegol ym Mro Morgannwg





Teuluoedd yn Gyntaf
Families First

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

# The Index Newsletter

## Haf 2024 | Rhifyn 46

### Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd y Fro yn cyflawni Gwobr Ansawdd Teuluoedd yn Gyntaf

Croeso i Rifyn 46, Rhifyn yr Haf o Gylchlythyr y Mynegai.

Mae ein tîm Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd y Fro wedi derbyn achrediad ansawdd cenedlaethol; Gwobr Ansawdd Teuluoedd yn Gyntaf. Mae'r Wobr genedlaethol yn cydnabod Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd (GGiD) sy'n dangos rhagoriaeth wrth roi gwybodaeth, cyngor a chymorth i deuluoedd lleol. Ein tîm ni yw'r trydydd GGiD yng Nghymru i gyflawni'r achrediad.



Amlygwyd Y Mynegai fel cryfder yn adroddiad yr aseswr ar ôl cyfweld â gofalwyr sy'n rhieni i'r rheiny ag anghenion cymhleth.

**Dywedodd un rhiant:** "Mae gen i ddau blentyn ag anableddau. Gallaf gael gafael ar y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd drwy wahanol gyfryngau, sy'n dda i fi, achos mae gen i awtistiaeth ac anableddau hefyd.

" Ges i help gan y GGiD gyntaf gyda gwybodaeth am sut i gael addasiadau rhesymol yn yr ysgol i fy mhlant, ac ers hynny, rydw i wedi gallu cael gafael ar grantiau drwy'r Mynegai."

" Maen nhw bob amser yn cysylltu â fi ar ôl fy ngalwadau i holi a oes angen help arna' i o hyd, sy'n wych pan rydych chi'n niwroamrywiol."

" Maen nhw'n ymgyrchu ar fy rhan, yn gwneud i fi deimlo bod fy llais yn cael ei glywed ac yn fy ngrymuso."

FAMILIES FIRST QUALITY AWARD ACCREDITED

Gallwch weld Fideo Dathlu Gwobrau Ansawdd Teuluoedd yn Gyntaf yma oneu sganiwch y côd QR.

Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd y Fro
Vale Family Information Service

Byddai'n bleser mawr gennym dderbyn unrhyw adborth ar unrhyw agwedd ar y Mynegai ond yn enwedig y cylchlythyr hwn, Rhifyn y Gaeaf, er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i'w deilwra i anghenion ein plant, ein pobl ifanc a'n teuluoedd yn y Fro. Mae ein gwybodaeth gyswllt isod at y diben hwn.

the index y mynegai

Rhif cyswllt: 0800 5871 014
E-bost: TheIndex@valeofglamorgan.gov.uk
Cliciwch yma i gwblhau ein harolwg byr neu sganio'r cod QR

## Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd y Fro

Os ydych chi'n chwilio am weithgareddau ar draws y Fro, gallwch ddod o hyd i lawer o opsiynau ar ein tudalen we GGiD: www.gwybodaethgofalplant.cymru

neu cysylltwch â GGID yn uniongyrchol ar 01446 704704.

Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd y Fro
Vale Family Information Service

Gall ein canllaw cam wrth gam hefyd eich cefnogi i lywio'r dudalen i gael mynediad at y teils arbenigol, sydd wedi'u datblygu'n ddiweddar i gynnwys profiad darparwyr o weithio gyda phlant/pobl ifanc ag anableddau neu anghenion ychwanegol, os ydych yn dymuno dod o hyd i'r wybodaeth hon eich hun.



**Gweithgareddau sy'n cefnogi plant ag anableddau / anghenion ychwanegol (56)**

Amrediad o weithgareddau plant a phobl ifanc sy'n gallu cefnogi plant gydag anableddau / anghenion ychwanegol.



**Cymorth arbenigol i deuluoedd plant ag anableddau / anghenion ychwanegol (101)**

Amrediad o wasanaethau cymorth i deuluoedd sy'n rhoi cymorth arbenigol i deuluoedd plant ag anableddau / anghenion ychwanegol.

## Clwb Gwyliau Teuluoedd yn Gyntaf | 5-11 oed

**Mae'r Clwb Gwyliau Teuluoedd yn Gyntaf yn ddarpariaeth allanol a ariennir gan grant sydd wedi'i hanelu at seibiant lefel isel i deuluoedd a nodir. Yn cael ei chyflwyno gan y tîm datblygu chwarae, yn draddodiadol mae wedi gallu cynnig lleoedd ychwanegol i deuluoedd lleol eraill.**

Fel y bydd llawer o deuluoedd yn ymwybodol, maent wedi bod yn profi cynnydd sylweddol yn y galw am leoedd i fynychu clwb Gwyliau Teuluoedd yn Gyntaf ac yn anffodus oherwydd y galw presennol a'r adnoddau cyfyngedig, nid ydynt yn gallu parhau i gynnig lleoedd fel yr ydym ni wedi gwneud o'r blaen.



Yn hytrach, byddant yn gweithio'n agos gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Tîm Iechyd ac Anableddau Plant (IAAP) i sicrhau eu bod yn cefnogi'r teuluoedd mwyaf anghenus. Mae hyn yn golygu y bydd lleoedd yn cael eu cynnig drwy atgyfeiriad proffesiynol yn unig.

Nid yw'r penderfyniad hwn wedi'i wneud heb ystyriaeth briodol, i'r holl blant a theuluoedd sy'n defnyddio'r clwb gwyliau ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae angen i ni sicrhau, wrth symud ymlaen, bod y gwasanaeth a ddarparwn yn y Clwb Gwyliau Teuluoedd yn Gyntaf yn diwallu anghenion chwarae'r plant hynny sydd angen hyn fwyaf.

Gwybodaeth Gyswllt -
E-bost: ffhc@valeofglamorgan.gov.uk

FAMILIES FIRST HOLIDAY CLUB
CLWB GWYLIAU CYNTAF TEULUOEDD

## Darpariaeth Chwarae Cynhwysol y Fro | 5-14 oed



**Bydd ein sesiynau chwarae mynediad agored yn cael eu cynnal mewn parciau a mannau agored ledled y Fro dros yr haf.**

Gallwch ddarganfod ble mae eich sesiwn agosaf yn cael ei chynnal ar ein tudalennau Cyfryngau Cymdeithasol neu ar valeplayteam.eventbrite.co.uk

**Does dim angen archebu lle ar y sesiynau hyn, dim ond troi fyny a chwarae ar y diwrnod! Os nad ydych wedi mynychu ein sesiynau chwarae o'r blaen, gallwch gwblhau ffurflen gofrestru ar-lein, trwy sganio'r cod QR.**

Am fwy o wybodaeth am ddarpariaeth chwarae cymunedol, cysylltwch â

**Julia Sky, Swyddog Datblygu Chwarae Cymunedol:**
jusky@valeofglamorgan.gov.uk

Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae
Playworks Holiday Project

Ariennir y sesiynau hyn gan Brosiect Gwyliau Gwaith Chwarae Llywodraeth Cymru.

## Diwrnod Chwarae Cenedlaethol




**Pryd:** Dydd Mercher 7 Awst 2024
**Amser:** 11am - 3pm
**Ble:** Gerddi Gladstone, Y Barri

**Bydd Diwrnod Chwarae Cenedlaethol yn cael ei ddathlu ledled y DU ddydd Mercher 7 Awst. Ymunwch â ni i ddathlu Diwrnod Chwarae Cenedlaethol yn y Fro.**

Eleni, ni fyddwn yn cynnal unrhyw ddarpariaeth chwarae arall ar y diwrnod hwn, fel y gall ein tîm chwarae profiadol fod wrth law i ddarparu cymorth ychwanegol i blant a theuluoedd sydd ei angen.

Bydd Tîm Chwarae'r Fro a phartneriaid yn darparu amrywiaeth o gyfleoedd chwarae cynhwysol am ddim i bob oedran, a bydd y digwyddiad yn cynnig cyfleusterau newid a mannau tawel.

**Dilynwch @valeplayteam ar y Cyfryngau Cymdeithasol i gael y newyddion diweddaraf am Chwarae yn y Fro.**

## Cube | 6-18 oed | Ble: Yr Oriel, Y Barri, CF62 7AA

Mae Cube yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc o 6 oed i oedolion ifanc 18 oed. Maent yn cefnogi cymaint o blant a phobl ifanc ag y gallant nad ydynt mewn argyfwng. Gallai rhai enghreifftiau gynnwys gweithio gyda pherson ifanc sy'n ei chael hi'n anodd yn yr ysgol, gartref a gyda'u grwpiau cyfeillgarwch. Maent yn cynnig grwpiau cymorth a gweithdai. Gall unrhyw un gyfeirio at y gwasanaeth drwy lenwi eu ffurflen atgyfeirio ar eu gwefan.




Sganiwch y cod QR ar gyfer eu gweithgareddau yn ystod gwyliau'r haf a chysylltwch â nhw'n uniongyrchol am wasanaethau eraill y maent yn eu cynnig.

**Gwybodaeth Gyswllt -**

Ffôn: 07801 978676 E-bost: tammi@cubecentre.co.uk
Facebook: @HeroesRights Gwefan: cubecentre.co.uk

## Diwrnod Hwyl i'r Teulu Dechrau'n Deg | am ddim





**Pryd:** Dydd Mercher 24 Gorffennaf 2024
**Amser:** 10am - 3pm
**Ble:** Caeau Pencoedtre, Y Barri, CF63 1SD

**Mae Dechrau'n Deg yn cynnal eu diwrnod blynyddol o hwyl i'r teulu mewn partneriaeth â Gwasanaeth Ieuenctid y Fro, y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, Teuluoedd yn Gyntaf, Tân ac Achub, Gwasanaeth Addysg i Oedolion a Gwasanaeth Iechyd y Fro i gynnig amrywiaeth o weithgareddau am ddim i deuluoedd eu mwynhau.**

Mae'r gweithgareddau'n cynnwys paentio wynebau, potiau ffrwythau, cook stars, tylwyth teg dymis, cestyll neidio, bro radio, beicio, celf a chrefft, modelu balwnau, cerddoriaeth Moo, ioga, dewin, a llawer mwy.

Bydd gennym hefyd amrywiaeth o stondinau bwyd lle gallwch brynu diodydd a byrbrydau, ond mae llawer o le i fwynhau picnic teuluol felly dewch â blanced a mwynhewch y diwrnod.

**Gwybodaeth Gyswllt -**
**Ffôn:** 01446 725106 **Facebook:** @ValeFlyingStart

## Grŵp Enfys | dan 5 oed



**Pryd:** Bob dydd Iau yn ystod y tymor
**Amser:** 10-11:30am
**Ble:** Tŷ Robin Goch, Y Barri CF63 1QB

Grwp chwarae aros a chwarae ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol a'u rhieni/gofalwyr.

- Cwrdd â ffrindiau newydd
- Cymorth a gwybodaeth
- Canu a Rhigymau
- Chwarae Synhwyraidd
- Chwarae meddal
- Cerddoriaeth a symud

**Gwybodaeth Gyswllt -**
**E-bost:** kbarrett@valeofglamorgan.gov.uk neu zbell@valeofglamorgan.gov.uk

## Prosiect Synnwyr o Chwarae | 0-4 oed

**Mae Synnwyr o Chwarae yn rhaglen o sesiynau chwarae wedi'u teilwra a ddarperir yn eich cartref gan weithiwr chwarae sydd wedi cael hyfforddiant sylweddol.**

Bydd y sesiynau, sy'n para am gyfnod o 6 wythnos, yn rhoi cyfle i chi brofi syniadau a gweithgareddau chwarae newydd, ehangu a datblygu perthynas gadarnhaol gyda'ch plentyn trwy chwarae wrth wneud hynny, gan gydnabod camau datblygiad gwahanol eich plentyn.

**Gwybodaeth Gyswllt - E-bost:** zbell@valeofglamorgan.gov.uk

## Motion Control Dance | o 3 oed i oedolion

**Pryd:** Mae llawer o opsiynau, gweler eu hamserlen ar eu gwefan
**Amser:** Mae llawer o opsiynau, gweler eu hamserlen ar eu gwefan
**Ble:** Stiwdio Motion Control Dance, Canolfan YMCA, Court Road, Y Barri, CF63 4EE

**Dros y degawd diwethaf mae Motion Control Dance wedi cwblhau'r safonau InSport gan gyflawni Rhuban, Efydd ac Arian. Gyda phandemig Covid yn ein hatal rhag gallu cael y safon nesaf, rydym yn falch iawn o gyhoeddi ein bod wedi derbyn ein tystysgrif Aur Insport ar 29 Ebrill 2024 gan Stephen McGrath, yr Uwch Swyddog Partneriaeth Rhanbarthol.**



Mae rhaglen Clwb insport yn rhan o Brosiect ehangach InSport sydd â'r nod o gefnogi'r sectorau gweithgaredd corfforol, chwaraeon a hamdden, gan gynnwys pobl anabl. Roedd gennym gyfres o amcanion i'w cyflawni trwy lanlwytho dogfennau a gwybodaeth berthnasol ynghyd â gwneud cyflwyniad er mwyn "dangos i ba raddau y mae athroniaeth cynhwysiant wedi cael ei sefydlu ar draws y sefydliad, y gwahaniaeth y mae gweithio tuag at gynhwysiant wedi ei wneud iddyn nhw". Rydym wedi'n rhestru ar wefan Chwaraeon Anabledd Cymru fel Clwb Insport. Mae hyn yn golygu, os oes unrhyw un ag anabledd yn chwilio am glwb yn eu hardal leol, y byddant yn gallu gweld pa glybiau sy'n fwy addas i'w hanghenion neu eu hawydd i gymryd rhan mewn chwaraeon.

Gwybodaeth Gyswllt -
E-bost: info@motioncontroldance.com
Gwefan: www.motioncontroldance.com
Ffôn: 07725 038778

## Teenscheme | 12-18 oed

**Pryd:** Bob dydd Mercher a dydd Iau yn ystod gwyliau'r ysgol
**Amser:** 10am – 3pm
**Ble:** Neuadd Gymunedol Celtic, Celtic Way, Y Rhws CF62 3FT

**Mae Teenscheme yn amgylchedd cynhwysol, nod y sesiynau yw rhoi cyfle i bobl ifanc fynegi eu hunain a grymuso eu lleisiau a'u penderfyniadau mewn amgylchedd diogel a chyfeillgar.**

Bydd angen i rieni ddarparu'r cludiant i'r ganolfan ac oddi yno. Bydd y bobl ifanc yn darparu eu byrbrydau, eu cinio a'u diodydd eu hunain. Gofynnwn yn garedig am gyfraniad bach o £5.

Bydd ganddynt Gynorthwywyr Personol i roi gofal personol iddynt, a bydd un wedi cael hyfforddiant meddygol ar gyfer pobl ifanc sydd angen cael eu bwydo drwy PEG.

Mae lleoedd yn brin. Mae presenoldeb yn Teenscheme yn dal i fod trwy atgyfeiriad yn unig, sydd ar gael trwy tmills@valeofglamorgan.gov.uk

## Cangen Caerdydd a'r Fro o'r Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth | 11-18 oed

**Pryd:** Unwaith y mis ar ddydd Sadwrn (gweler y dyddiadau isod)
**Amser:** 10:30am – 12:30pm
**Ble:** Neuadd Eglwys y Bedyddwyr Llanisien, Heol y Fid-las, Caerdydd CF14 5LZ

**Gemau, Celf a Lluniaeth.**

- Dydd Sadwrn 20 Gorffennaf
- Dydd Sadwrn 17Awst
- Dydd Sadwrn 14 Medi
- Dydd Sadwrn 19 Hydref
- Dydd Sadwrn 16 Tachwedd
- Dydd Sadwrn 14 Rhagfyr

**Gwybodaeth Gyswllt -**
**Facebook:** @CAVNAS
**Gwefan:** https://www.autism.org.uk/what-we-do/branches/nas-cardiff-and-the-vale-branch

## Clwb Hwb | 11-16 years



**Pryd:** Bob dydd Mercher yn ystod y tymor
**Amser:** 5:30pm – 7:30pm
**Ble:** YMCA, Court Road Y Barri CF63 4EE

Clwb Ieuenctid yw Clwb Hwb i bobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol. Ar gael mae Celf a Chrefft, Cerddoriaeth, Gemau, Chwaraeon a Choginio. Nid oes unrhyw gymorth na gofal un i un ar gael.

Cysylltwch ag Annette Harrison gydag unrhyw ymholiadau.

**Gwybodaeth Gyswllt - E-bost:** aharrison@valeofglamorgan.gov.uk

## Gwasanaeth Ieuenctid y Fro | 11-17 oed a 18-25 oed



**Mae Gwasanaeth Ieuenctid y Fro yn cynnal clybiau ieuenctid ar draws Bro Morgannwg, ac mae pob un ohonynt yn rhad ac am ddim i gael mynediad a chymryd rhan ynddynt.**

Mae'n amrywio o chwaraeon, trafodaethau anffurfiol, ffilmiau, celf a chrefft, pŵl, ymlacio gyda ffrindiau, lle i gwrdd sy'n gynnes ac yn sych, sesiynau addysg, coginio, Cynllun Gwobr Dug Caeredin, ACU - cyrsiau achrededig rydych yn cymryd rhan ynddynt a lle rydych yn cael eich achredu am eich dysgu, cyfleoedd gwirfoddoli, hyfforddiant mewnol, prosiectau cyfranogi sy'n rhoi'r cyfle i chi leisio eich barn. Mae ganddynt hefyd ddarpariaeth ieuenctid symudol, sef eu bws, o'r enw VPOD sy'n gallu teithio i ardal i gynnig gweithgareddau ieuenctid. Mae Gwasanaeth Ieuenctid y Fro hefyd yn cynnal rhaglenni gwyliau ysgol a gweithgareddau ychwanegol yn ystod hanner tymor a gwyliau'r haf.

Gall unrhyw berson ifanc 11-17 oed gael mynediad iddynt. Edrychwch ar eu tudalennau cyfryngau cymdeithasol i gael y wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn y maent yn ei redeg o wythnos i wythnos.

**Facebook:** @valeyouthservice **X:** @vysvale **Instagram:** @vysvale

Gall pobl ifanc 18-25 oed gael mynediad at brosiectau penodol ar gyfer yr ystod oedran yma. Maent yn ymdrechu i fod yn gynhwysol i bob person ifanc felly os oes gennych ymholiad ynghylch unrhyw un o'u darpariaethau, cysylltwch gan ddefnyddio'r rhif neu'r cyfeiriad e-bost isod.

**Gwybodaeth Gyswllt - Ffôn:** 01446 709308 **E-bost:** valeyouthservice@valeofglamorgan.gov.uk

## Gostyngiad Trwydded Deledu i Bobl Ddall

**Efallai y byddwch yn gymwys i gael gostyngiad o 50% ar eich Trwydded deledu:**

- **Os ydych chi'n Ddall (ag amhariad difrifol ar eich golwg) NEU**
- **Os ydych chi'n byw gyda rhywun** sy'n Ddall (ag amhariad difrifol ar eu golwg) fel plentyn (hyd yn oed os ydynt o dan 18 oed)



Bydd y drwydded hon yn berthnasol i chi neu unrhyw un sy'n byw gyda chi. Cost Trwydded Deledu â gostyngiad i bobl ddall yw £79.50 am deledu lliw a £26.75 am drwydded ar gyfer teledu du a gwyn.

I wneud cais, gwnewch lungopi/tynnwch lun o'ch Tystysgrif Amhariad ar eich Golwg chi neu eich plentyn, NEU gerdyn gan eich cyngor yn nodi bod gennych amhariad difrifol ar eich golwg – yna'i lanlwytho i'r Porth Trwyddedau Teledu ar-lein, neu ei bostio gyda'r manylion angenrheidiol.

Gallwch hefyd gael y gostyngiad os oes gennych Drwydded Deledu eisoes, drwy adnewyddu eich trwydded a darparu'r dystiolaeth uchod neu ffonio'r rhif isod am fwy o fanylion.

Sganiwch y cod QR i wneud cais am ostyngiad o 50%

Gwybodaeth Gyswllt - Ffôn: 0300 790 6083

* Noder, os ydych chi neu'r aelod o'ch aelwyd yn rhannol ddall (ag amhariad ar eich golwg) nid ydych yn gymwys.

## Elusen Cŵn Awtistiaeth

Elusen Cŵn Awtistiaeth yw'r rhaglen fwyaf cymwys o'i bath a dyma'r unig raglen sy'n hyfforddi Cŵn Cymorth Awtistiaeth sy'n cael ei rhedeg gan bobl awtistig.



Mae eu gwasanaeth yn cael ei gymeradwyo gan ac yn hygyrch i blant ac oedolion awtistig a'u teuluoedd. Gall cŵn cymorth wedi eu hyfforddi liniaru heriau cyflwr y trinwyr. 'Rhaglen Cŵn Cymorth' a reolir yn llawn gydag addysg barhaus a chefnogaeth ddynol i bob cleient a'u prif ofalwyr.

Wedi'i ddarparu gan weithwyr proffesiynol cymwys, gwneir y gwaith hwn i helpu i ddatblygu strategaethau ymdopi newydd yn ogystal â dulliau amgen ar gyfer y teulu cyfan. Mae llwyddiant partneriaeth Cŵn Cymorth yn dibynnu ar y gwaith hwn, felly mae'n hanfodol bod safonau'n cael eu cyrraedd a bod dealltwriaeth yn cael ei chaffael i alluogi'r ci i gael ei leoli gyda'r teulu.



Gwybodaeth Gyswllt -
Ffôn: 01260 591296
Gwefan: https://www.autismdogs.co.uk




## Seren Dwt | Babanod a Theuluoedd

**Yn dilyn ysbrydoliaeth gan 'flychau babanod newydd' eraill ledled y byd, ar Ddiwrnod Syndrom Down y Byd 21/3/22, lansiodd 3 Mam ysbrydoledig eu Blychau Babanod Seren Dwt eu hunain, i'w dosbarthu i holl Fyrddau Iechyd Cymru a'u rhoi i rieni newydd babanod â Syndrom Down.**



Mae'r blychau yn dathlu eu babi newydd gyda'r cariad y maent yn ei haeddu, ac yn cyfeirio teuluoedd yn dyner at y cymorth sydd ar gael, yn lleol ac yn genedlaethol pe baent ei eisiau.

Maent hefyd nawr yn cynnal grwpiau cyfarfod misol ar gyfer plant 0-5 oed sydd â syndrom Down yng Ngogledd Caerdydd, ac yn trefnu cyfarfodydd rheolaidd ledled De Cymru ar gyfer teuluoedd ag aelod o'r teulu (o unrhyw oedran) sydd â syndrom Down, yn ystod gwyliau'r ysgol.

Maent yn estyn diolch yn fawr iawn i lawer o ffrindiau a theulu talentog sy'n gwneud ac yn cyfrannu llawer o eitemau hyfryd, fel blancedi, hetiau a bŵts.

Os hoffech gymryd rhan neu os hoffech gyfrannu at Seren Dwt, byddent wrth eu bodd yn clywed oddi wrthych.

Gwybodaeth Gyswllt -
Facebook: https://www.facebook.com/serendwt
GoFundMe: https://www.gofundme.com/f/Seren-Dwt-Fundraising
E-bost: serendwt21@gmail.com


## Hyb Gofalwyr Di-dâl Tu Vida

Vale Unpaid Carers Hüb

Rydym yn darparu gwasanaeth lles i ofalwyr di-dâl ym Mro Morgannwg ar gyfer ein gwasanaeth a elwir yn 'Hyb Gofalwyr Di-dâl y Fro' - sy'n wasanaeth newydd, fodd bynnag mae'r Elusen ei hun 'TuVida' wedi bod yn gweithredu ers dros 30 mlynedd.

Trosolwg cyflym o'n gwasanaethau:

Mae Hyb Gofalwyr Di-dâl y Fro yn siop un stop ar gyfer gofalwyr di-dâl sy'n byw ym Mro Morgannwg. Mae'r gwasanaeth yn cynnig cymorth ymarferol ac emosiynol i ofalwyr di-dâl, gan helpu pobl i ddiogelu eu hiechyd a'u lles a deall eu rôl ofalu. Mae ein gweithwyr yn darparu clust i wrando a gallant roi gofalwyr mewn cysylltiad â gwasanaethau a chymorth yn yr ardal leol.




Gall ein tîm cyfeillgar helpu gofalwyr di-dâl sy'n byw yn ardal y Fro gyda:

- Gwybodaeth, cyngor a chymorth am ddim.
- Cefnogaeth sy'n canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i chi.
- Cymorth i gael gafael ar wasanaethau lleol.
- Ymwybyddiaeth o bwy allai fod yn ofalwr a'u hanghenion.
- Lle dibynadwy i ofalwyr gael eu clywed.

I wneud atgyfeiriadau (defnyddiwr proffesiynol neu wasanaeth) cliciwch yma neu sganio'r cod QR.

Gwybodaeth Gyswllt -
E-bost: valecarershub@tuvida.org Ffôn: 02921921024 Gwefan: www.tuvida.org

## Adnoddau iechyd meddwl a lles

Sganiwch y cod QR i weld adnodd a ddatblygwyd gan Swyddog Y Mynegai sy'n cynnwys rhestr o wasanaethau iechyd meddwl a lles ar gyfer plant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

Sganiwch y cod QR i gael mynediad at becyn cymorth hunan-garedig am ddim i oedolion gan y Groes Goch Brydeinig.

## Magu Plant. Rhowch amser iddo

Ewch drwy adnoddau ar-lein Magu Plant, Rhowch amser iddo Llywodraeth Cymru i gael awgrymiadau a chyngor arbenigol am ddim ar gyfer pob her rhianta yn amrywio o enedigaeth i 13+ gan gynnwys cefnogaeth i blant ag anghenion ychwanegol.

Hoffem hefyd gyflwyno Teulu Cymru, hyb newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer yr holl wybodaeth i deuluoedd. Mae eu tudalen hefyd yn cyfeirio at Magu Plant, Rhowch Amser Iddo

Gwybodaeth Gyswllt - Gwefan: https://www.llyw.cymru/magu-plant-rhowch-amser-iddo
Teulu Cymru: https://www.llyw.cymru/teulu-cymru

## Tîm Cynhwysiant | 0-19 oed

Mae'r Tîm Cynhwysiant yn rhan o'r gyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau yng Nghyngor Bro Morgannwg.

Maent yn cynnig cyngor, cymorth ac arweiniad ynghylch materion lles, presenoldeb, ymgysylltu a chynhwysiant i ddisgyblion, rhieni, ysgolion ac asiantaethau perthnasol eraill. Mae gwaith y Tîm Cynhwysiant yn cwmpasu'r meysydd canlynol:

- Presenoldeb a Lles Addysg
- Cefnogi Cyrhaeddiad a Lles (CLlY)
- Addysg Ddewisol yn y Cartref (ADdC)
- Plant sy'n Colli Addysg
- Tiwtora y Tu Allan i'r Ysgol (TTAY)
- Trwyddedu Hebryngwyr
- Trwyddedu Perfformwyr sy'n Blant
- Rhoi Trwyddedau Cyflogaeth Plant



Gwybodaeth Gyswllt -
Gwefan: Sganiwch y cod QR am fwy o wybodaeth:

Ffôn: 01446 709113 E-bost: inclusionteamreferrals@valeofglamorgan.gov.uk

## Tîm Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) | 0-25 oed

Fel rhiant neu ofalwr, gallech fod yn pryderu bod gan eich plentyn Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).



Mae gan blentyn neu berson ifanc ADY:

- os yw dysgu'n llawer mwy anodd iddynt na'r rhan fwyaf o blant o'r un oedran, neu
- os oes ganddynt anabledd sy'n eu hatal neu eu rhwystro rhag defnyddio'r cyfleusterau addysgol a ddarperir yn gyffredinol i eraill o'r un oedran mewn ysgol prif ffrwd a gynhelir neu Sefydliad Addysg Bellach.

Mae'r Tîm ADY wedi gweithio gydag awdurdodau lleol eraill yn rhanbarth Canol y De i gynhyrchu llyfryn gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ADY i rieni a gofalwyr.

Cliciwch yma i weld neu sganio'r cod QR.

Gwybodaeth Gyswllt -
Cyswllt: 01446 709180
E-bost: alnenquiries@valeofglamorgan.gov.uk
Gwefan: https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/living/schools/Additional-Learning-Needs/Additional-Learning-Needs.aspx

## Awgrymiadau pontio i’r ysgol uwchradd gan Twinkl

Bydd llawer o bobl ifanc yn dechrau ar eu taith ysgol uwchradd o fis Medi 2024.

Sganiwch y cod QR i wylio fideo yn llawn awgrymiadau i helpu gyda’r amser ansicr hwn.

## Gyrfa Cymru Helpwch eich plentyn i gynllunio ei ddyfodol

Byddwch yn ddylanwad mawr ar ddewisiadau eich plentyn ar gyfer y dyfodol.

Sganiwch y cod QR sy’n mynd â chi i wefan Gyrfa Cymru gydag awgrymiadau a chyngor defnyddiol.

## Y Pod | 16+

**Pryd:** Dydd Llun - dydd Gwener
**Amser:** 10am - 4pm (dydd Gwener tan 3pm)
**Ble:** Golau Caredig, Broad Street, Y Barri CF62 7AZ

**Mae’r Pod wedi croesawu llawer o unigolion ac wedi cynnig cyngor, arweiniad a chefnogaeth.**




Cyrsiau wythnosol i unigolion, yn ogystal â gwasanaeth mentora cyfannol i’r rhai sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth, nod y Pod yw helpu pobl i gael gwaith â thâl sydd yn gynaliadwy.

Mae Cynghorwyr y Pod yn cynnal clybiau swyddi wythnosol sy’n cynorthwyo gyda chwilio am swyddi, ffurflenni cais a thechnegau cyfweliad. Gall cynghorwyr hefyd roi cymorth i bobl ar feysydd gan gynnwys tai, budd-daliadau, a lles.

Mae Mentoriaid Cyflogaeth Arbenigol wrth law i ddarparu cymorth ac arweiniad un i un i unrhyw unigolion sydd eisiau hyfforddiant/cymwysterau neu gyflogaeth.

Darpariaethau cymorth cymunedol eraill sydd ar gael yn y Pod - Pobl, Cyngor ar Bopeth, Busnes Cymru, Hafod a Gyrfa Cymru. Yn ogystal, nos Fercher rydym yn cynnal Banc Bwyd, gall pobl ddod i gael talebau bwyd, a derbyn cymorth.

Mae CELT+ wedi cefnogi 714 o bobl i gael hyfforddiant a gwirfoddoli. Mae gennym lawer o sesiynau hyfforddi, digwyddiadau rhwydweithio ac ymgyrchoedd recriwtio i ddod. Dewch i ymweld â ni yn Y Pod, Golau Caredig i ddarganfod mwy am ein digwyddiadau a’n cyfleoedd hyfforddi sydd i ddod.

## Ymwadiad

Nid yw mwyafrif y sefydliadau sydd wedi’u cynnwys yn y cylchlythyr hwn yn cael eu rheoli na’u rhedeg gan Gyngor Bro Morgannwg. Cafodd y cylchlythyr hwn ei greu mewn ymdrech i’ch helpu i gysylltu gwasanaethau. Ni ellir dal Cyngor Bro Morgannwg yn atebol am y gwasanaethau a ddarperir gan unrhyw sefydliad allanol a enwir yn y cylchlythyr hwn ac ni ellir ei ddal yn atebol am unrhyw ddifrod neu golled a achosir gan unrhyw anghywirdeb yn y cylchlythyr hwn, nac ychwaith am weithredoedd unrhyw un o’r sefydliadau allanol a restrir.

Nid yw rhestru sefydliad yn y cylchlythyr hwn yn golygu bod Cyngor Bro Morgannwg yn cymeradwyo’r sefydliad hwnnw, ac nid yw peidio â rhestru unrhyw sefydliad yn golygu nad yw’r Cyngor yn ei gefnogi ychwaith.

Y Mynegai: 0800 5871 014 E-bost: TheIndex@valeofglamorgan.gov.uk
Gwefan: www.valeofglamorgan.gov.uk/ymynegai Facebook: @VOGFIS X: @ValeFIS